
# Bro'r Sgydau | Waterfall Country

Porth i Fro'r Sgydau

# Ystradfellte

Gateway to Waterfall Country



Sgwd Isaf Clun-gwyn

## Croeso i Fro'r Sgydau!

### Rydych chi wedi cyrraedd Ystradfellte – porth i Fro'r Sgydau ryfeddol.

Does yna unlle arall yng Nghymru gyda'r fath gyfoeth ac amrywiaeth o raeadrau mewn ardal mor fach. Yma, yn yr ardal a elwir yn Fro'r Sgydau, mae afonydd Mellte, Hepste, Pyrddin, Nedd Fechan a Sychryd yn ymdroelli i lawr ceunentydd dwfn, coediog, dros gyfres o raeadrau dramatig, cyn ymuno i ffurfio Afon Nedd. P'un a ydych yn chwilio am antur am ddiwrnod cyfan neu dro am awr yn unig, dylech allu dod o hyd i lwybr addas i chi.

Lleolir Bro'r Sgydau yn bennaf o fewn coetir a reolir ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Awdurdod Parc Cenedlaethol. Gyda'n gilydd, rydym yn rheoli'r llwybrau ac yn eich helpu chi i archwilio a mwynhau'r ardal unigryw hon.

## Welcome to Waterfall Country!

### You've arrived at Ystradfellte – gateway to Wales' wonderful Waterfall Country.

Nowhere else in Wales is there such a richness and diversity of waterfalls within such a small area. Known as Waterfall Country, here the rivers Mellte, Hepste, Pyrddin, Nedd Fechan and Sychryd wind their way down deep, tree-lined gorges, over a series of dramatic waterfalls, before joining to form the River Neath. Whether you are looking for a whole day adventure or an hour's stroll you should be able to find a route suitable for you.

Waterfall Country lies largely within woodland jointly managed by Natural Resources Wales and the National Park Authority. Together we manage the paths and help you explore and enjoy this unique area.




Atgynhyrchir y map hwn o ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2020 Arolwg Ordnans 100019741.
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright and database rights 2020 Ordnance Survey 100019741.



Sgwd y Pannwr

## Beth allwch ei wneud o Faes Parcio Gwaun Hepste gerllaw

### Llwybr Pedair Sgwd

**Uchafbwyntiau:** Llwybr cylchol rhyfeddol drwy geunentydd coediog sy'n cynnwys y pedair sgwd fwyaf poblogaidd, dros risiau serth a thir garw dan draed.

## What you can do from the nearby Gwaun Hepste Car Park

### Four Falls Trail

**Highlights:** A legendary circular trail through woodland gorges taking in the four most popular waterfalls with steep steps and rough terrain underfoot.

## DEWIS LLWYBR | TRAIL SELECTOR

| Enw Llwybr / Trail Name | Dechrau / Start | Tir Dan Draed / Terrain | Y Ffactor Waw / Wow Factor | Torfeydd / Crowds | Amser / Time | Pellter / Distance | Llwybr Sain / Audio Trail |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Elidir** Sgwd **Gwladus** Waterfall | **Pontneddfechan** | 1 | 3 | 4 | **1.5** awr/hours | **2.4**m/**3.9**km oddi-ac-yn-ôl there and back | ✓ |
| **Elidir** Sgwd **Gwladus** Waterfall | Maes parcio **Pont Melin-fach** / **Pont Melin-fach** car park | 2 | 4 | 2 | **1.5** awr/hours | **2.5**m/**4**km oddi-ac-yn-ôl there and back | |
| **Sychryd** | **Pontneddfechan** | 1 | 2 | 4 | **20** munud/mins | **0.4**m/**0.6**km oddi-ac-yn-ôl there and back | |
| **Powdwr Gwn Gunpowder** | Maes parcio **Craig y Ddinas** / **Dinas Rock** car park | 2 | 2 | 2 | **1** awr/hours | **1.1**m/**1.8**km oddi-ac-yn-ôl there and back | ✓ |
| **Sgwd yr Eira** | Maes parcio **Craig y Ddinas** / **Dinas Rock** car park | 2 | 3 | 4 | **2** awr/hours | **3.9**m/**6.3**km oddi-ac-yn-ôl there and back | ✓ |
| **Pedair Sgwd Four Falls** | Maes parcio **Gwaun Hepste** neu **Gwm Porth** / **Gwaun Hepste** car park or **Cwm Porth** | 3 | 5 | 4 | **3-4** awr/hours | **5.2**m/**8.4**km | |

**Anhawster** | **1**=hawdd | **2**=cymedrol | **3**=anodd | — **Difficulty** | **1**=easy | **2**=moderate | **3**=difficult

**Ffactor Waw** | **1**=dymunol – **5**=eithriadol | — **Wow Factor** | **1**=pleasant – **5**=spectacular

**Torfeydd** | **1**=tawelaf – **5**=prysuraf | — **Crowds** | **1**=least busy – **5**=busiest

**Amser** | yn cynnwys dod yn ôl | — **Time** | includes return |

## BANNAU BRYCHEINIOG
EIN PARC CENEDLAETHOL

## BRECON BEACONS
OUR NATIONAL PARK

**Croeso i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – ardal sy'n orlawn o antur, natur, golygfeydd diguro a chymunedau amrywiol.**

Gyda'r nos mae hi'n tywyllu gymaint yma fe gydnabyddir Bannau Brycheiniog yn Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Mae'n gartref hefyd i Geoparc Byd-eang UNESCO y Fforest Fawr, sy'n cael ei ddathlu ledled y byd am gyfoeth ei dreftadaeth naturiol a diwylliannol.

**Welcome to Brecon Beacons National Park – an area brimming with adventure, nature, breath-taking scenery and varied communities.**

At night it gets so dark here that the Brecon Beacons is recognised as an International Dark Sky Reserve. It is also home to the Fforest Fawr UNESCO Global Geopark, celebrated world-wide for its rich natural and cultural heritage.

www.breconbeacons.org

GWARCHODFA AWYR DYWYLL Bannau Brycheiniog
Brecon Beacons DARK SKY RESERVE

www.breconbeacons.org/stargazing

FFOREST FAWR GEOPARK

Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig • Geoparc Byd-eang UNESCO
United Nations Educational, Scientific and Cultural Organization • Fforest Fawr UNESCO Global Geopark

www.geoparcyfforestfawr.org.uk
www.fforestfawrgeopark.org.uk

## Edrych ar ôl eich hun a'r cefn gwlad:

Mae Bro'r Sgydau yn dirwedd fregus y gellir ei difrodi'n hawdd gan y niferoedd mawr o bobl sy'n ymweld â hi. Dilynwch y canllawiau hyn a gyda'ch help chi gallwn gadw'r lle hwn heb ei ddifetha ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

- **Cadwch at y llwybrau sydd wedi'u cyfeirbwyntio** – dyma fydd y llwybr mwyaf diogel i chi.
- **Os dewch ag ef yma, ewch ag ef adref** – gall sbwriel ddifetha ymweliad pawb.
- **Gwyliwch lle rydych yn camu!** – mae planhigion, yn enwedig mwsoglau, yn fregus ac yn tyfu'n araf ac mae mor hawdd sathru arnyn nhw.
- **Mae tanau yn gallu creu difrod mawr** – gadewch goed sy'n sefyll a rhai sydd wedi syrthio ar gyfer y bywyd gwyllt.
- **Mae heddwch a thawelwch** yn cael eu gwerthfawrogi gan y trigolion lleol, boed yn bobl neu'n anifeiliaid.

**Rydym yn pryderu amdanoch chi hefyd, felly:**

- Cofiwch wisgo esgidiau cadarn; mae'r llwybrau cerdded yn gallu bod yn serth ac yn llithrig dan draed. Byddwch yn ymwybodol o gwympiadau serth heb ffensys i'ch gwarchod, yn enwedig wrth dynnu lluniau.
- Peidiwch â chael eich temtio i nofio yn y dŵr – mae'n gallu bod yn oer ac yn llifo'n gyflym. Mae hyd yn oed y nofwyr cryfaf wedi gallu mynd i drafferthion.
- Mae ffonau symudol yn annibynadwy ym Mro'r Sgydau. Mae ffonau argyfwng a blychau ffôn yn cael eu nodi ar y map dros y dudalen. Os cewch ddamwain wrth gerdded, dringo creigiau neu ogofa, ffoniwch yr heddlu ar 999 neu 112 a gofynnwch am y tîm Achub Mynydd neu Achub Ogofâu.

## Looking after yourself and the countryside:

Waterfall Country is a fragile landscape that can be easily damaged by the large numbers of people that visit. Follow these guidelines and with your help we can keep this place unspoilt for future generations.

- **Keep on the waymarked paths** – they will offer you the safest route.
- **If you bring it here, take it home** – litter can spoil everyone's visit.
- **Watch where you step**! – plants, especially mosses, are fragile and slow growing and easily trampled.
- **Fires are devastating**, leave standing and fallen trees for the wildlife.
- **Peace and quiet** are appreciated by the local residents, both people and animals.

**We care about you too, so please:**

- Remember to wear sturdy footwear; the walking trails can be steep and slippery underfoot. Be aware of unguarded steep drops, especially when taking photos.
- Don't be tempted to swim in the water – it can be cold and fast flowing. Even the strongest swimmers have been known to get into trouble.
- Mobile phone coverage is unreliable in Waterfall Country. Emergency phones and phone boxes are indicated on the map. For walking, rock climbing or caving accidents call Police on 999 or 112 and ask for Mountain Rescue or Cave Rescue.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

www.breconbeacons.org/llwybr-llafar
www.breconbeacons.org/audiotrails

parcio / parking · gwybodaeth / information · toiledau / toilets · parcio tâl / pay parking · sgwd (rhaeadr) / waterfall · llwybrau eraill (dewiswyd) / other paths (selected) · llwybrau cerdded / walking trails · lle picnic / picnic area · tafarndy / public house · caffi / café · ffôn / phone · ffôn argyfwng / emergency telephone

Cymru~Wales ADVENTURE SMART.UK
www.adventuresmart.uk/cy/cymru/
www.adventuresmart.uk/wales/

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**